

## Croeso!

Yn ôl calendr Ceredrotian, erbyn nawr fe ddylem fod wedi cael cwpwl o benwythnosau prysur iawn o rasys. Ond unwaith eto cafodd ein haf o rasys ei ddiustrio gan y tywydd anobeithiol. Bob clod i bwyllgor Tregaron, er waethaf y tywydd fe wnaethpwyd y penderfyniad i achub rhyw faint o'r sefyllfa a symud y sioe a chynnal dau ddiwrnod o rasys bendigedig yn Nyffryn Aman. Ac felly cyfle i ni'r mis yma i ddal lan a rhai o'r storïau buddugoliaethus o benwythnos rasys Tregaron.

### Beth sy' wedi bod yn digwydd?

Mae wedi bod yn dymor hynod anodd i rasys harnais, nid jyst yng Ngheredigion ond drwy'r DU, gyda nifer o gyfarfodydd heb ddewis ond i ganslo eu rasys oherydd y glaw. Ac mi ddiodeffodd cyfarfodydd Ceredrotian cymaint a neb. Gorfodwyd Tregaron i ganslo'r diwrnod cyntaf yn cyfan gwbl ac wedyn ail-leoli rasys dydd Sadwrn a dydd Sul i drac caled Tairgwaith, Dyffryn Aman. Mae'r diolch yn fawr i bawb wnaeth hwyluso'r proses a sicrhau bod y rasys yn llwyddiant. Na nid Tregaron mo honno ond mi roedd presenoldeb gymaint o wynebau cyfarwydd yn help i greu rhywfaint o awyrgylch unigryw Tregaron.



Cafwyd rasys chystadleuol tu hwnt dros y 2 ddiwrnod. Diwrnod Alexis a William Laidler oedd hi ddydd Sadwrn, wrth ennill 3 o'r 4 rhagras go gyfer a ffeinal Ras Ystrad Fflur. A'u ceffyl, Springhill Alibi, y ffefryn cyn-rasio aeth a'r ffeinal gyda pherfformiad gloyw ac mewn steil. Fe lwyddodd tîm Laidler cadw eu momentwm ymlaen i'r dydd Sul wrth fynd 'malen i ennill y Ddraig Fach Gymreig (3 oed) gyda Camden Daniel a'r Ddraig Iau Gymreig (2 oed) gyda Stamp Hill. Stamp Hill yn ennill mewn amser o 1.59.4 ac felly yn creu record Brydeinig newydd i geffylau 2 oed. Ond er cymaint oedd llwyddiant y Laidlers', diwrnod y bachgen lleol Rhys Evans oedd hi ddydd Sul, wrth ennill y Ddreiges Fach Gymreig gyda'r eboles Baby Rosa ac wedyn i goroni ei dymor, ennill Clasur Cymru gyda Fool Around.

Wedi penwythnos Tregaron, y gobaith nawr oedd i'r tywydd wella ac mi fyddai Clwb Llambod yn medru

cynnal eu rasys ar y penwythnos canlynol, ond yr un hen stori - gormod o law a'r trac dan dwr. O'r 9 niwrnod rasys oedd i'w cynnal yng Ngheredigion yn 2012, dim ond dau (Tregaron mis mai a Tanycastell) aeth ymlaen yn ôl y cynllun. Tipyn o ergyd i'r sir a phawb sy'n ymwneud neu yn ymddiddoru yn y gamp.

Roedd Lynda Bellingham wedi golygu dod a'i rhaglen newydd "My Tasty Travels with Lynda Bellingham" i ymweld â Gŵyl Trotian Ceredigion, ond unwaith eto - oherwydd y glaw collwyd y cyfarfod. Ond mi roeddent yn awyddus iawn i gynnwys rasio harnais fel eitem yn y rhaglen ac felly roedd rhaid ail-ystyried

a newid trefniadau a bant a hi i wylïo'r hyfforddwyr wrth eu gwaith. Felly ar 13 Medi (yn y glaw) mi ddaeth Lynda Bellingham i gwrdd â chriw o yrwyr a hyfforddwyr i ddysgu fwy am rasio harnais.



Wedi i Lynda cael cyfle i wylïo ychydig a holi fwy am y gamp, fe gafodd Lynda 2 her – yn gntaf i paratoi cawl i'r gyrrwyr ac wedyn i geisio ei llaw ar yrru un o'r ceffylau. Ac er waethaf y glaw diflino, fe wnaethwyd y cawl a gydag help Michael O Mahony fe aeth yn y gert, ac fe fuodd yn gyrru'r ceffyl o amgylch y trac ac yn edrych fel ei bod wedi cael tipyn o hwyl. Da oedd gweld rasio harnais yn ymddangos ar raglenni'r dydd ar ITV a chyfle i bawb cael gweld beth sydd gan y gamp i gynnig.



Yn ystod penwythnos Tregaron, mi fuom yn ffodus iawn gael cwmni Mathew Hill, wrth iddo ymuno a Darren Owen a Gary Capewell yn y blwch sylwebu. Roedd Matt, sylwebydd rasys o Awstralia, wedi bod yn Llundain yn sylwebu ar y gemau Olympaidd i orsaf radio yn Awstralia, ac yn awyddus iawn i ymweld â rasys Tregaron. Ond fel y gweddill ohonom, ni welodd flewyn o drac Dolyrychain, Tregaron ond fe gawsom ni gyfle i ddal lan ganddo yn Nyffryn Aman.

**Hi Matt, gobeithio eich bod wedi mwynhau 'Tregaron @ Dyffryn Aman'**

*Ydw, rwy wedi cael amser bendigedig, Bawb yn gyfeillgar a chroesawgar, ac mi oedd y trac mewn man delfrydol i gynnal rasys.*

**Sut mae'r rasio yn cymharu â'r gwahanol lefydd i chi wedi sylwebu?**

*Y peth oeddwn yn sylwi, oedd faint oedd y rasys yn golygu i'r cefnogwyr yma yng Nghymru, roeddent wrth eu boddau yn gwyllo'r rasys. Roedd yn le da i sylwebu gan fod y rasys yn gystadleuol ac yn gyffrous.*

**Mi gawsom ni sylwebaeth ryngwladol i un ras, Darren Owen, Gary Capewell, Tim Kelleher a chithau yn rhannu'r gwaith - eich syniad chi?**

*Na, syniad Darren oedd y Sylwebaeth 4 Cenedl - yntau fel finnau wedi gwneud sawl Grand National. Ac fel y Grand National roedd bob sylwebydd yn neud rhan o'r ras ac yn trosglwyddo yn ystod y ras, tipyn o hwyl. Fi oedd yn neud y ¼ olaf, felly yn rhan fwyaf hawdd gan fod y ceffylau eisoes wedi setlo ac yn dod am adre.*

**Beth oedd uchel bwyntiau eich ymweliad?**

I fi, cael sylwebu ar Stamp Hill yn y Ddraig Iau Gymreig ag yntau yn creu record Brydeinig Newydd ac mi fydd gennyf atgofion melys am griw o bobl gyfeillgar iawn.

**Unrhyw geffylau/hyfforddwyr/gyrwyrr sydd wedi creu argraff?**

*Fe wnes i fwynhau gwyllo Mick Lord a Rocker Laidler yn ogystal â'r gyrwyrr ifanc Michael O Mahony a Rhys Evans. Mi fydd Stamp Hill yn geffyl fydda'i yn dilyn o hyn ymlaen*

**Beth yw'ch argraff chi o rasio harnais yma a ble fedrwn ni wella?**

Mae amlwg fod yna cariad enfawr am y gamp yma, rhywbeth nad yw i'w weld yn rhannau arall o'r byd. Yn Awstralia mae rasio harnais yn cael ei weld fel camp i fetio nid camp i'w ganlyn. Os gall rasio harnais yma ym Mhrydain greu cynllun gall codi maint y gwobrau ariannol, mi fydd gyda chi camp gref am y blynyddoedd i ddod. Rwy'n hoffi'r syniad o gael handicap tu ôl i'r car cychwyn, mi fyddem ni yn dymuno gweld yr un fath yn Awstralia, ond rwy'n credu dyle'r "draw" cael ei wneud cyn diwrnod y rasys. Mae'r broses o wneud y draw yn hir ac yn amhroffesiynol.

**Yn anffodus ni chawsoch chi'r cyfle i ymweld â gwir wyl rasio Tregaron, unrhyw obaith y dewch chi nôl?**

*Mi fyddem ni wedi dwlu cael punt bob tro ma' rywun wedi dweud hwnna wrthyf yn ystod y penwythnos! Mi fyddem ni yn dwlu ymweld â Tregaron, felly ma' fe ar y rhestr obethau i wneud. Pur yn aml rydyn ni yn gweld rasio ar borfa yn Awstralia, felly mi fyddai fe'n grêt cael gweld e. Gobeithio rhyw ddiwrnod yn y dyfodol.*



Mae Rhys wedi cael y dechrau delfrydol i'w flwyddyn gyntaf fel hyfforddwr cyhoeddus, prin fedrau freuddwydio'r fath gychwyn yn enwedig o weld i lwyddiant yn wyl Tregaron.

Fe ddaeth ei fuddugoliaeth fawr cyntaf y penwythnos gyda Baby Roas (Art Major/Mambo Hall). Prynwyd yr eboles yn Harrisburg llynedd gan ei fodryb, Gwenan Thomas. Y Ddreiges Fach

Gymreig oedd targed Baby Rosa o'r cychwyn - ac mi roedd Rhys wedi cynllunio ei thaith i'r Ddreiges yn fanwl wrth ddewis rasys fyddai yn ei pharatoi yn drwyadl am y ras. Cyn y Ddreiges, fe aeth i Tanycastell er mwyn iddi gael ei phrofi ar borfa. Fe enillodd ras Aelodau Cardigan Bay mew steil ac yn dangos bod yr un gallu ganddi ar borfa a'r trac caled. Wrth i Rasys Tregaron cael eu hail-leoli i drac caled roedd Rhys yn teimlo bod hwnna wedi bod i'w mantais, roedd dim rhaid poeni am ymdopi a'r porfa.

Dim ond 3 eboles oedd yn y rhagras gyntaf, felly roedd Rosa yn warrantedig o'i lle yn y ffeinal. Felly cyfle i arbrofi rhywfaint, cymryd pethau yn rhwydd yn rhan gyntaf y ras ac eistedd tu ôl i'r 2 arall. A phan ofynnwyd iddi symud, cyflymodd yn hawdd a dangos fod y gallu ganddi i rasio o'r blaen neu o'r cefn. Wrth ennill y rhagras roedd gan Rhys y dewis o'i safle ar y gât, ac yn dewis rhif un. Wedi gweithio ar chwaneg o anhawster bach yn ei hysgwydd, roedd Rhys yn hyderus na fyddai y tro cyntaf y trac yn drafferthus iddi, fel yr oedd mewn ras yno nol ym mis Mehefin. Ac mi roedd Rhys yn hollol gywir, fe hedfanodd Rosa o'r gât ac arwain y gweddil



i'r syth cefn. Ac felly a bu ar y blaen o'r dechrau i'r diwedd. Buddugoliaeth braf, ac yn cofnodi amser o 2.00. Rhan gyntaf job y penwythnos wedi neud!

Ers ennill Ffeinal Y Gwanwyn yn Nhregaron ym mis Mai, roedd llawer yn credu mai Fool Around fyddai un o brif geffylau Clasur Cymru 2012. Ond, i Rhys ffeinal Ceredigion oedd y nod cyntaf. Er mae ennill Clasur fyddai'r freuddwyd, roedd teulu'r Evans yn teimlo bod yna lawer iawn o amser hyd ddiwedd mis Awst, ac roedd rhaid anelu at rywbeth cyn hynny, gan eu bod yn argyhoeddedig bod y gallu gan y ceffyl i ennill handicap mawr. Ac felly Ceredigion oedd y targed. Ond yn anffodus, fel llawer o'r digwyddiadau cafodd rasys Ceredigion eu canslo oherwydd y tywydd, ond falle erbyn hyn taw bendith guddiedig oedd i Fool Around.

Wrth fynd i'r rasys roedd yn amlwg fod ganddo ragras dwym iawn. Ac wedi dechrau'r ras, anodd oedd hi, wrth i Fool Around gael i gloi yn y boc, gydag un man i fynd. Erbyn iddo weld golau dydd roedd Talavary Cherokee wedi ennill tir a bwrw am adre ar gorau fedrai Fool Around wneud oedd sicrhau'r ail safle. Wrth orffen yn ail roedd



wedi sicrhau ei le yn y ffeinal, ond dim ond ar ôl ymholiad hir gan y stiwardiaid. Y gofid mawr yn y ffeinal oedd Lyons Eryll Hall, roedd ganddo fantais o 10 llath ar Fool Around ac roedd Rhys hefyd yn cofio ei fod wedi curo Fool Around ym mhencampwriaeth 4oed Efrog yn 2011. Ond, dyma oedd ymddangosiad cyntaf Lyons Eryll Hall eleni, ac efallai taw hwnna fyddai wendid. Y ddau geffyl arall i wyllo byddai Brywins Magicpotion a Rhyds Topaz - ond roedd gan Fool Around 20 a 30 llath o fantais ar y 2 yna. Y cynllun oedd i adael y gât yn gyflym, a gwneud yn fach o hebrwng 10 llath, a naill cyrraedd y blaen neu i orfodi Lyons Eryll Hall i gyflymu gymaint ac agor digon o le i Fool Around cael eistedd fewn tu ol iddo. Fe weithiodd pethau yn berffaith, Eryll Hall yn benderfynol i gynnal y blaen ac felly creu y lle perfffiath i Fool Around y tu ol iddo. Roedd digon o gyflymdra yn y ras, felly yn gwneud gwaith y ceffylau ol yn fwy anodd. Wrth fod i'r ¾ milltir, ac ambell i

geffyl yn paratoi i herio, fe dynodd Fool Around allan ac wrth i Rhys wyllo heibio Eryll Hall a throi am adre roedd Rhys yn ymwybodol ei fod yn gyrru enillydd Clasur Cymru 2012 a byw ei freuddwyd.

Wrth i realiti'r dydd daro'r teulu mi roedd 'na ddagrau. Rhieni yn gweld eu mab yn byw ei freuddwyd a rhyddhad y fodryb ei bod hi wedi prynu eboles go lew, teulu yn ymfalchïo ei bod unwaith eto wedi magu a rasio pencampwr o fri. Ond efallai delwedd fwyaf braf y dydd oedd gweld mam-gu yn cyflwyno ei hwyr gyda thlws y pencampwr.

Er mor falch oedd Rhys, efallai dim ond ar ol mynd nôl i Dregaron wedi gorffen a'r ceffylau a chamu mewn i'r Talbot a bloedd ei ffrindiau i gyfarch Clasur Cymru yn dod adre. Ac er mor felys oedd y fuddugoliaeth, fyddai neb fwy na theulu'r Evans wedi dymuno taw ar drac Dolyrychain oedd y cyfan wedi digwydd.

Mae wedi bod yn dymor a hanner i Rhys - Ddechreuodd taith 2012 yn Rasys Tregaron Mis Mai, gyda Fool Around yn ennill Ffeinal y Gwanwyn. Ymlaen i rasys mawr Appleby gyda Home Habana. Mi rydym yn hen gyfarwydd a gweld herwyr y gogledd yn teithio lawr i Geredigion a mynd ar enillion yn ol dros Plumlymon. Ond y tro hyn, bachgen o'r de aeth i domen y Gogleddwyr, a hei ho, dod a'r tlysau a'r arian yn ol i Glyn, Maeslyn a Cheredigion.

Wedyn ym mis Gorffennaf, taith arall i'r gogledd - y tro hyn fyny i Musselburgh yn Yr Alban gyda Billy Elliott ac ennill y ras forwynol. Ebol cyntaf Carousel (chwaer i Fool Around) a Sable Matters (tad Fool Around). Mae ffeinal Musselburgh yn ras fyddai Rhys yn hoffi ennill. Yn 1973 fe enillodd tad-cu Rhys y ffeinal fawr gyda Saunders Leopard. Mi fyddai cael ei enw yn ysgythredig ar yr un cwpan a'i dad-cu yn dipyn o gamp. Efallai taw Billy Elliott fydd y ceffyl y freuddwyd nesa.

Megis 10 niwrnod ar ol Tregaron, ac mi oedd Rhys a'i

geffylau ar y ffordd i Dir Prins. Roedd sawl un o'r farn fod gan Baby Rosa tipyn o sialens y noswaith hynny, yr unig eboles oedd yn fodlon cystadlu yn erbyn tro o ebolion 3 mlwydd oed gorau'r wlad. Ond i Rhys a Rosa roedd rhaid jyst cymryd pethau yn eu cam a chamu gwnaethant nhw, yn gyflym o'r gât, a rheoli'r cyfan o'r dechrau i'r diwedd. Roedd y fuddugoliaeth yn meddwl tipyn i Rhys gan ei bod wedi curo ebolion da iawn, tipyn o gamp. Mae wedi bod yn dymor agoriadol bendigedig i Rosa a ni allent nhw fod wedi gofyn mwy o'r eboles fach. Mi fydd hi nawr yn teithio i Efrog i'r Derby i gloi ei thymor. Ar obaith flwyddyn nesa fydd i gystadlu yn y rasys 4 oed ac yn rasys y cesig, sydd wedi bod yn gystadleuol iawn eleni.

Fe aeth Fool Around hefyd i Dir Prins i gystadlu yn Ras Goffa Billy Williams gyda cheffylau gorau'r wlad yn cynnwys enillydd y Crochan Aur Stoneriggs Mystery. Mystery enillodd y ras ond mi ddangosodd Fool Around ei fod yn llawn haeddiannol o'i le yn y dosbarth yma ac yn beryg i bawb y flwyddyn nesa. Y Crochan Aur fydd y brif nod y flwyddyn nesa, cyfle i gael ras arall yn erbyn y pencampwr Stoneriggs Mystery. Yn ol bob tebyg mi fydd Fool Around yn dechrau tymor nesa, fel ceffyl Gradd 9, "rhyw dir colledig" yn ol ei hyfforddwr. Ma' gradd 9 yn le anodd, ddim bob amser yn cael ei hystyried i fod yn Free For Alls, ond yn rhy bell nôl i fod yn gystadleuol i'r ffeinalau mawr. Ond ma' Rhys yn eithaf ffyddiog, gyda bach o lwc fe alle Fool Around ennill ffeinal arall fel ceffyl gradd 9.

Mae'n debyg fod yna ddyfodol hir a disglair i'r hyfforddwr ifanc yma. Mae yna fwy o stablau yn Mhorthyffynnon ac mi fydd yn medru cael 14 o geffylau yna flwyddyn nesa. Mae llawer o'r stablau eisoes wedi eu cymryd, rhai yn enwau cyfarwydd â sawl enw bach newydd. Ond wrth ofyn iddo rannu rhai o'i obeithion newydd ... mi fyddai well gyda fi cadw'r cyffro i fi fy hun am nawr!



# Newyddion Sydyn

- Mae'r Ceffyl o Bontsenni yn creu tipyn o argraff draw yn yr ynys werdd. Yn gyn-enillydd o ffeinall Travis Perkins yn rasys Ceredigion, a nawr dan ofal yr hyfforddwr Gwyddelig Alan Wallace mae wedi ennill 2 ras a chreu record bersonol newydd o 1.57.7
- Cofiwch Cinio Blynnyddol Clwb Trotian Ceredigion, Nos Sadwrn 17 Tachwedd, yn Llety Parc, Aberystwyth. Tocynnau £20 oddiwrth Heulwen Bulman.
- Mae'n adeg yr arwerthiannau – Arwerthiant Efrog 6 Hydref ac Arwerthiant Brightwells, Llanelwedd 22 Hydref. Efallai taw chi fydd yn prynnu pencampwr y dyfodol.
- Gwyliwch allan am raglen BBC Cymru "A Summer in Wales" Nos Lun 1 Hydref a nos Wener 5 Hydref, mi fydd y rhaglen yn cynnwys cip olwg ar rasys Tanycastell
- Noson o Adloniant Clwb Rasio Harnais Cilmeri – nos Wener 16 Tachwedd am 7.30yh. Neuadd y Pentref, Cilmeri. Tocynnau £10 yn cynnwys bwyd, comediwr a miwisg. Noson o hwyl a sbri!

*Cyllidwyd y prosiect hwn drwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.*



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig  
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government